

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

13 Rhagfyr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau") yn pennu'r cymwysterau y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned eu dal er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni un o'r tri amod cymhwysra i ddod yn 'gyngor cymuned cymwys' o dan adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), gan alluogi'r cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol (y "pŵer cyffredinol") i "awdurdodau lleol cymhwysol". Mae'r pŵer cyffredinol yn rhoi'r pŵer i'r awdurdodau hyn wneud unrhyw beth y caiff unigolyn yn gyffredinol ei wneud, cyhyd â'u bod yn gweithredu'n rhesymegol ac yn unol â'r gyfraith. Mae adran 25 yn nodi ffiniau'r pŵer cyffredinol, mae adran 26 yn nodi'r terfynau ar godi tâl wrth arfer y pŵer cyffredinol, ac mae adran 27 yn nodi terfynau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol.

Pennir awdurdodau lleol cymhwysol yn Neddf 2021 fel prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys.

Mae cyngor cymuned cymwys yn gyngor cymuned sy'n bodloni'r amodau cymhwysra a nodir yn adran 30 o Ddeddf 2021, ac sy'n pasio penderfyniad ei fod yn bodloni'r amodau.

Gwneir y Rheoliadau o dan adran 30(3) o Ddeddf 2021.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn unol ag adran 174(6) o Ddeddf 2021, a deuant i rym ar 5 Mai 2022.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Rhaid i gyngor cymuned fodloni tri amod o dan adran 30 o Ddeddf 2021 cyn y gall basio penderfyniad sy'n golygu ei fod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Dyma hwy:

- Datganwyd bod o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor wedi'u hethol, boed mewn etholiad cyffredin neu mewn is-etholiad
- Mae clerc y cyngor yn dal cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau
- Mae'r cyngor wedi cael barn archwilio ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, am ddwy flwyddyn ariannol yn olynol. Mae'n rhaid i'r farn archwilio ddiamod ddiweddaraf fod wedi'i chael yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y cafodd penderfyniad y cyngor ei fod yn gymwys ei basio.

Diben y Rheoliadau yw pennu'r cymwysterau y mae'n rhaid i'r clercc eu dal er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail amod. Gall clercc feddu ar unrhyw un o'r cymwysterau canlynol er mwyn bodloni'r ail faen prawf:

- Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA)
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Llywodraethu Cymunedol
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymgysylltu a Llywodraethu Cymunedol; a
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Polisi Lleol.

Y bwriad yw rhoi sicrwydd bod gan glerc cyngor sy'n dymuno arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth graidd o weithrediad llywodraeth leol ac egwyddorion llywodraethu da i gefnogi cyngor cymuned wrth iddo arfer y pŵer hwn.

Nid yw'r CiLCA yn cael ei reoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Mae CiLCA yn rhaglen hyfforddi ardystiedig a gydnabyddir gan y cyrff sy'n cynrychioli'r sector yng Nghymru fel y cymhwyster proffesiynol a ffefrir. Caiff gweddill y cymwysterau eu dilysu neu eu dyfarnu gan Sefydliadau Addysg Uwch ac maent o fewn cylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA).

5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y rheoliadau drafft rhwng 28 Mehefin 2021 a 24 Medi 2021.

Darparwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r rheoliadau drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru ac anfonwyd y ddolen at bob cyngor cymuned a thref yng Nghymru, yn ogystal ag ystod o randdeiliaid eraill gan gynnwys prif gynghorau, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Archwilio Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol.

Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno bod y cymwysterau a bennwyd yn y rheoliadau drafft yn rhoi hyder bod y clercc yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol newydd. Er bod cymwysterau amgen wedi'u hawgrymu, nid oedd cefnogaeth sylweddol i unrhyw gymwysterau addas eraill sy'n benodol i'r sector. Ni ddaeth unrhyw faterion i'r amlwg a oedd yn cyfiawnhau diwygio'r fersiwn o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arni.

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael [yma](#).

6. Asesiad effaith rheoleiddiol

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio fel rhan o'r ymgynghoriad. Aseswyd costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau fel rhan o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2021](#) (tt 125-126).

Mae'r adran berthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2021 wedi'i hadolygu ac, ar wahân i un gost arall a nodwyd (gweler isod), gwelwyd ei

bod yn parhau'n gadarn. Ar y sail honno, nid ystyriwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol newydd.

Mae un ychwanegiad i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i Ddeddf 2021, sy'n ymwneud yn benodol â pharagraffau 10.56 i 10.61. Daeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad nad oedd darpariaeth ddwyieithog lawn ar gyfer hyfforddi ac asesu'r Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA). Mae darpariaeth ddwyieithog yn galluogi clerod i ymgymryd â CiLCA yn eu dewis iaith ac yn cefnogi amcanion y strategaeth iaith Gymraeg 2050 i gynyddu'r defnydd o'r iaith. Bydd sicrhau cyfieithiadau o'r deunyddiau perthnasol a chael aseswyr sy'n siarad Cymraeg yn costio £7,000 ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost. Mae ychwanegu'r gost hon at y costau llywodraeth leol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cost Deddf 2021 yn rhoi cyfanswm cost o rhwng £21,000 a £32,000 ar gyfer 2021-22, ac mae'r cyfanswm ar gyfer y cyfnod gwerthuso deng mlynedd yn cynyddu i rhwng £283,500 a £455,000.

Cyfle cyfartal

Nid yw darpariaethau'r Rheoliadau yn dangos unrhyw wahaniaethu yn erbyn personau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Hawliau plant

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloed Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau.

Y Gymraeg

Bydd yr arian ychwanegol y cytunwyd arno yn sicrhau hyfforddiant ac asesiadau drwy'r Gymraeg ar gyfer CiLCA yn barod ar gyfer 5 Mai 2022, pan ddaw'r Rheoliadau i rym. Bydd mynediad at dystysgrif CiLCA yn brofiad cyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Felly, ni fydd y Rheoliad yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Cynigir y Tystysgrifau Addysg Uwch gan sefydliadau yn Lloegr drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.